# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Fawrth 2023 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Jones Evans, Geraint Evans, Alan H Jones, Arwel Pierce, Geraint Edwards

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Richard C Evans

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 23 Ionawr 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion.

4. Derbyn cofnodion 6 Mawrth 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion gyda chywiriad, sef mai ar 6ed o Fawrth oedd y cyfarfod ac nid 6ed o Chwefror.

5. Cais Ariannol - Tŷ Gobaith:

**PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

6. Cais Ariannol - Macmillan:

**PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

7. Cais Ariannol - Cerebral Palsy Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

8. Cais Ariannol - Theatr Bara Caws:

**PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

9. Cais Ariannol - Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd:

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

10. Cais Ariannol - Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

11. Cais Ariannol - Elusen Ambiwlans Awyr Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

12. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101827 | £210.26 |
| Cyllid a Thollau EM | Treth | 101828 | £52.40 |
| B Gwilym | Teleffon | 101829 | £30.00 |
| B Gwilym | Costau teithio | 101830 | £180.00 |
| Zurich | Yswiriant | 101831 | £925.84 |
| Y Ganolfan | Llogi ystafell | 101832 | £180.00 |
| Cyng Geraint Evans | Lwfans | 101833 | £150.00 |
| Cyng Alan H Jones | Lwfans | 101834 | £150.00 |
| Clwb Ffermwyr Ifanc | Rhodd | 101835 | £50.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ambiwlans Awyr | Rhodd | 101836 | £50.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

13. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn – Afon Fathew / pryder am lifogydd:

Adroddwyd bod e-bost wedi ei anfon at Aelod Senedd Cymru ond nid oedd yr Aelod yn debygol o fod wedi cyfarfod Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cafwyd adroddiad gan Gynghorydd yn mynegi rhagor o fanylion am y pryder, sef bod pryder nad yw'r dŵr yn medru gadael Aber Dysynni ar ôl cyfnod o law trwm gan fod ceg yr Aber wedi cau, bydd yn golygu llifogydd i'r cwm cyfan.

**PENDERFYNIAD:** I anfon nodyn ymlaen at yr Aelod Senedd gyda'r manylion ychwanegol, gan ofyn am gyfarfod aml asiantaeth.

14. Cyngor Gwynedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Tîm Tacluso Ardal Ni:

Nodwyd bod sawl lle sydd angen sylw.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cynghorydd Sir i hysbysu'r tîm o'r llefydd sydd angen sylw o fewn y pentref.

15. Zurich - yswiriant:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y polisi.

16. Baw cŵn - diweddariad:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

17. Llwybrau cyhoeddus:

**PENDERFYNIAD:** I anfon e-bost a lluniau at Adra yn dangos y difrod i'r llwybr.
I gysylltu gyda Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd er mwyn cyflwyno cais am giât sydd yn agor yn llydan yn lle giât mochyn sydd wrth ymyl Pont Fathew er mwyn gneud y llwybr cyhoeddus yn hygyrch.

18. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Cegin yn parhau i fod yn fudr
-Angen atgoffa contractwr bod angen atgyweirio'r drysau
-Coedyn wedi codi ar un o'r byrddau picnic

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I atgoffa'r contractwr am y drysau.
Cynghorwyr Alan H Jones a Geraint Evans i roi sylw ar y bwrdd picnic.

19. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-yn parhau i fynychu cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn ceisio denu staff meddygol fel doctoriaid a nyrsys i'r ardal.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

20. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** Nid oedd eitem brys.

Bu i’r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:00pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................